

## Cwrs Uwch – Uned Gyfoes (Mis Tachwedd 2019):

### Busnesau Cymreig – Nodiadau i'r Tiwtor

Nod y wers:

- Cyflwyno a thrafod tri busnes bach Cymreig;
- Trafod cynnyrch Cymreig ac arferion prynu;
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd.

Mae llawer o fusnesau bach sy'n cynhyrchu pethau yng Nghymru yn defnyddio'r Gymraeg wrth farchnata eu cynnyrch neu yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Bydd yr uned hon yn cyflwyno tri o'r busnesau hyn a'r bobl sy'n gyfrifol amdanyn nhw ac yn rhoi cyfleoedd i drafod cynnyrch y busnesau hyn a busnesau Cymreig eraill ac arferion prynu. Mae'n bosib cyflwyno'r elfennau yn y wers hon dros fwy nag un sesiwn.

#### 1. **Gwyllo a Gwrnado – Eifion Griffiths, Melin Tregwynt**

Mae Eifion yn siarad yn nhafodiaith Sir Benfro. Cyn chwarae'r clip, gofynnwch i'r dysgwyr drafod yr eirfa dafodieithol mewn parau neu grwpiau bach gan nodi ffurfiau mwy safonol yn ogystal ag unrhyw ffurfiau tafodieithol perthnasol o'ch ardal chi.

Ewch dros yr atebion cyn gofyn iddynt wrando am y geiriau hyn wrth wyllo'r fideo:

wedd	- roedd
dŵad	- dod
heddi	- heddiw
dou	- dau
treial	- ceisio/trio
newi	- newydd
gwahaniaeth	- gwahanol

Wedi iddynt weld y clip unwaith, gofynnwch i'r parau/grwpiau lenwi cymaint ag y gallant o'r enwau lleoedd yn y tabl. Ewch dros yr atebion a chwarae'r clip eto (gallech oedi wrth wneud hynny bob tro y bydd un o'r enwau lleoedd i'w glywed):

Tref yn Sir Benfro:	Abergwaun
Gwlad yn hemisffer y de:	Awstralia ( <i>Australia</i> sydd i'w glywed)
Gwlad arall yn hemisffer y de:	Seland Newydd ( <i>New Zealand</i> sydd i'w glywed)
Y wlad hon	Cymru
Gwlad fawr yng Ngogledd America	Yr Unol Daleithiau
Y cyfandir hwn	Ewrop

Gwlad o ynysoedd yn y Dwyrain Pell	Japan
Gwlad fwyaf poblog y byd	China

Ar ôl chwarae'r clip, gofynnwch i'r parau/grwpiau drafod pam mae Eifion yn enwi'r lleoedd hyn.

Trafodwch yr atebion gyda'r dosbarth cyfan cyn dangos y fideo unwaith eto a gofyn i'r parau/grwpiau drafod y cwestiynau sydd yn y llyfr. Dewch â'r dosbarth ynghyd i drafod yr atebion:

2. Pa ddau newid mawr ddigwyddodd i'r felin yn 1912?
  - i. Cafodd berchennog newydd wrth i dad-cu Eifion ei phrynu.
  - ii. Newidiodd yr enw o Felin y Dyffryn i Felin Tregwynt.
3. Faint o bobl leol sy'n gweithio ym Melin Tregwynt?
  - 32 (mae'r staff i gyd yn dod o'r ardal).
4. Defnydd gyda pha fath o batrymau sy'n gwerthu orau ar hyn o bryd?
  - Patrymau traddodiadol (sydd wedi bod gyda nhw ers y 1950au)

## 2. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy'n trafod cynnyrch Cymreig a ffasiwn. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrefodaethau'r grwpiau. Os oes gennych chi rywbeth, dewch â chynnyrch o Felin Tregwynt i'r dosbarth er mwyn ei ddangos ac ychwanegu at y drafodaeth. Gallwch ofyn i'r dysgwyr ddod â chynnyrch Tregwynt neu unrhyw nwyddau o ddefnydd Cymreig sydd ganddynt i'r dosbarth nesaf.

## 3. Caru Canu – Un a Dwy a Thair

Wedi i chi dynnu sylw at y ffaith bod patrymau Melin Tregwynt i'w gweld yn y cefndir yn yr animeiddiadau yn y gyfres hon, dangoswch raglen *Un a Dwy a Thair* o wefan S4C/Clic neu i-Player y BBC (bydd y rhaglen hon ar gael ar S4C/Clic tan 17 Rhagfyr 2019 neu ar i-Player tan 12 Rhagfyr). Gofynnwch i bawb ganu'r pedwar pennill a glywyd ar y rhaglen (gallwch wneud y pennill cyntaf gyda'r dosbarth cyfan a'u rhannu'n grwpiau llai i fynd trwy'r gweddill os dymunwch).

1. Un a dwy a thair o lygod... ..deg o lygod llwyd.
2. Un a dau a thri o deigrod... ..deg o deigrod gwyllt.
3. Un a dau a thri o lewod... deg o lewod dewr.
4. Un a dwy a thair o gathod... ..deg o gathod bach.

Wedi iddynt gofio'r penillion a glywyd, gofynnwch i'r grwpiau ffurfio penillion i gyfri'r pethau a nodir yn y tabl (atgoffwch nhw y bydd angen ansoddair addas ar ddiwedd pob pennill hefyd):

Un a dwy a thai o wartheg...	Un a dau a thri o deirw...	Un a dwy a thair o ddefaid...	Un a dau a thri o gaeau...
Un a dau a thri o ddrwsau...	Un a dau a thri o bysgod...	Un a dwy a thair o datws...	Un a dau a thri o ffrwythau...

Gofynnwch i wahanol grwpiau berfformio'r gwahanol benillion yn eu tro (gan wirio bod y cenedlenwau yn gywir) a thrafodwch pa ansoddeiriau a ddewiswyd.

#### 4. Darllen – Halen Môn

Cyn troi at y darn darllen, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i gysylltu'r geiriau â'r diffiniadau cywir ac ewch dros yr atebion:

cyfanwerthu	gwerthu nwyddau i fusnesau eraill fydd yn eu gwerthu i'r cyhoedd
tymhorol	yn newid llawer ar adegau gwahanol o'r flwyddyn
llanw	dŵr y môr yn codi ac yn gostwng
tewychu	gwneud rhywbeth yn fwy trwchus neu dynnu dŵr allan ohono
dŵr croyw	dŵr ffres heb halen ynddo
cynhwysion	elfennau gwahanol sy'n mynd i mewn i rysâit neu bryd bwyd
heli	dŵr hallt / dŵr y môr
cynaeafwr	rhywun sy'n casglu cnwd pan mae'n barod
ôl-troed carbon	ffordd o fesur eich effaith ar yr amgylchedd

Gofynnwch i barau ddarllen trwy'r darn – awgrymwch fod un partner yn darllen cwestiwn a'r partner arall yn darllen yr ateb i'r cwestiwn hwnnw, gan gyfnewid rolau ar gyfer pob cwestiwn. Pan fyddant wedi cwblhau'r darllen, gofynnwch iddynt ystyried arwyddocâd y creaduriaid a'r bobl a nodir yn y tabl yn y llyfr i hanes busnesau Alison a David. Trafodwch yr atebion gyda'r dosbarth cyfan:

wystrys a chregyn gleision	Roedd Alison a David yn gwerthu'r rhain tra roedden nhw yn y Brifysgol er mwyn cael arian ychwanegol a datblygodd hynny'n fusnes cyfanwerthu bwyd môr wedyn.
cimychiaid	Roedd y busnes cyfanwerthu yn gwerthu'r rhain ac oherwydd bod pobl yn hoffi edrych arny'n nhw yn y tanciau, datblygodd Alison a David fusnes y Sw Môr.
twristiaid/ymwelwyr	Roedd y Sw Môr yn dibynnu ar y rhain ac oherwydd nad oedden nhw'n dod trwy'r flwyddyn, roedd Alison a David eisiau ddatblygu busnes arall, ac o hynny y daeth cwmni Halen Môn.
pobl leol sy'n siarad Cymraeg	Mae'r rhan fwyaf o staff Halen Môn yn bobl leol sy'n siarad Cymraeg.

Heston Blumenthal a Gordon Ramsay	Mae'r ddau gogydd yma yn defnyddio Halen Môn.
cigydd Porthaethwy	Y cigydd hwn oedd cwsmer cyntaf Halen Môn ac mae'n dal yn gwsmer.

Gofynnwch nesaf i'r parau lenwi'r bylchau yn y brawddegau (gan sicrhau nad ydynt yn edrych yn ôl ar y darn ar gyfer yr ymarfer hwn!)

- Fe wnaethon ni **ychwanegu at** ein hincwm fel myfyrwyr **drwy** dyfu wystrys a chregyn gleision.
- Roedden ni'n gwneud yn dda iawn **dros fisoedd yr** haf, ond roedden ni eisiau **parhau i** gyflogi'r staff dros y gaeaf.
- Mae gennym ni **lanw** grymus iawn sy'n golchi drwodd **ddwywaith y** dydd.
- Mae popeth yn **cael ei wneud** â llaw.
- Rydym ni'n prynu'n lleol **gymaint ag y gallwn** ni.

Trafodwch yr ymadrodd **Rydym ni'n \_\_\_\_\_ gymaint ag y gallwn ni** wedyn a gofynnwch i bawb yn ei dro gynnig rhywbeth arall y gellir ei ddweud gyda'r ymadrodd hwn. Yna gofynnwch i barau neu grwpiau bach ganfod dau ymadrodd arall yn y darn y gellir eu defnyddio i siarad am bethau gwahanol. Os oes angen help, gallech eu llywio tuag at rai o'r canlynol:

Byddai pobl yn arfer...

Roedd diddordeb ganddyn nhw mewn...

Roedden ni'n gwneud yn dda iawn...

Dyn/Dan ni'n gweld ein hunain fel... (neu Dw i'n gweld fy hunan fel...)

ble bynnag y bydd pobl yn...

I orffen y rhan hon, gofynnwch i'r parau geisio ail-greu'r sgwrs gydag Alison gan ddefnyddio'r cwestiynau yn unig. Pwysleiswch mai ceisio rhoi'r un wybodaeth sy'n bwysig, nid cael yr atebion i gyd yn yr un geiriau yn union. Unwaith eto, gallant gyfnewid rôl fesul cwestiwn. Ewch o gwmpas y dosbarth gan brocio'r cof i helpu yn ôl yr angen.

## 5. Gwranddo – Richard Huws, Pant Du

Cyn chwarae rhan gyntaf y sgwrs, gofynnwch i barau lenwi'r grid canlynol gyda'r geiriau cywir sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwin a seidr:

Y ddiod	Gwin	Seidr
Y ffrwythau sy'n cael eu defnyddio i wneud y ddiod fel arfer	grawnwin	afalau
Y planhigyn y mae'r ffrwythau yn tyfu arno (unigol)	gwinwydden	coeden afalau

Yr enw lluosog ar gyfer y planhigion hyn	gwinwydd	coed afalau
Y darn o dir lle mae'r planhigion yn tyfu (unigol)	gwinllan	perllan
Yr enw lluosog ar gyfer y darnau hyn o dir	gwinllannoedd	perllannau

Wedi mynd dros yr uchod, tynnwch sylw at yr enwau lleoedd a gofynnwch i bawb wrando amdanynt a rhoi ✓ yn y blwch perthnasol pan fyddant yn eu clywed wrth wrando ar ran gyntaf y sgwrs am y tro cyntaf. Dylai'r canlyniad fod yn debyg i hyn:

	✓
Y Gogledd	✓
Y De	✓
Tal-y-sarn	✓✓✓
Pen-y-Groes	✓✓✓✓✓
Pant Du	✓
Llanllyfni	✓
Clynnog	✓
Seland Newydd	✓

Trafodwch yr ymadrodd “**Daeth sawl tro ar fyd i’w ran**” cyn gofyn i barau weithio trwy’r ymarfer i addasu’r ymadrodd ar gyfer personau gwahanol:

Daeth tro ar fyd i **fy rhan** i      neu      **i’w rhan** i

Daeth tro ar fyd i **dy ran** di      neu      **i’th ran** di

Daeth tro ar fyd i’**w rhan** hi

Daeth tro ar fyd i’**n rhan** ni

Daeth tro ar fyd i’**ch rhan** chi

Daeth tro ar fyd i’**w rhan** nhw

Chwaraewch y darn eto a gofyn i barau drafod pa dri tro ar fyd a ddaeth i ran Richard y mae Beti’n sôn amdanynt cyn trafod rhyw dro ar fyd sydd wedi dod i’w rhan nhw eu hunain. Dyma’r atebion ar gyfer Richard:

- i. ei rieni'n ysgaru
- ii. symud o bentre hollol Gymraeg yn y Gogledd i ardal ddiwydiannol Seisnig yn y De
- iii. mentro i brynu'r ffarm a dechrau'r busnes ar ôl bod yn gweithio fel dyn camera am flynyddoedd lawer

Tynnwch sylw at yr ymadrodd “**y busnes yn ffynnu**” a thrafodwch ystyr y gair **ffynnu** (gwneud yn dda, *to prosper, to thrive, to flourish*) cyn gofyn i barau feddwl am ddau beth arall y gellir dweud eu bod yn ffynnu. Dyma rai posibilïadau:

plant (yn yr ysgol), llyisiau/blodau/planhigion yn yr ardd, tref/pentref/ardal, yr economi

Chwaraewch y rhan gyntaf unwaith eto, a gofynnwch i barau drafod y cwestiynau sydd yn y llyfr. Dyma'r atebion:

1. Pa un o'r pentrefi hyn oedd ddim yn bodoli pan gafodd ffarm Pant Du ei hadeiladu?  
Pen-y-groes
2. Pam mae lleoliad Pant Du yn arbennig o addas ar gyfer Richard a'i wraig?  
Am ei fod hanner ffordd rhwng ei bentref genedigol o (Tal-y-sarn) a'i phentref genedigol hi (Pen-y-groes).
3. Pam mae'r daith i Seland Newydd yn bwysig yn hanes y busnes?

Oherwydd mai wrth fynd o gwmpas gwinllannoedd yno yn blasu gwin y cawson nhw'r syniad o sefydlu gwinllan.

4. Sut mae'r adeiladau canlynol ym Mhant Du yn cael eu defnyddio erbyn hyn:
  - a) Yr hen ffermdy                      Mae'n parhau'n segur ac heb ei adnewyddu.
  - b) Yr hen feudy                        Maen nhw'n byw yno.
  - c) Adeilad newydd                    Mae'r siop yno a'r gwaith prosesu'n digwydd yno.

Sut mae hyn yn wahanol i'r cynllun oedd gan Richard ar ddechrau'r prosiect a pham?

Ei fwriad gwreiddiol oedd adnewyddu'r tŷ ffarm a throi'r beudai yn llety i ymwelwyr. Newidiodd y cynllun pan awgrymodd swyddog cynllunio y gallai droi'r beudai yn un tŷ. Wedyn, bu rhaid gwario ar adeilad newydd ar gyfer y siop a'r gwaith prosesu, felly doedd dim arian ar gael i adnewyddu'r hen dŷ ffarm.

Tynnwch sylw at yr enwau lleoedd y mae eisiau gwranddo amdanynt yn ail ran y sgwrs a gofyn i bawb sylwi ar sut mae Richard yn dweud y gair “afalau” cyn i chi chwarae'r darn hwnnw. Dylai'r canlyniad yn y tabl fod yn debyg i hyn:

	✓
Cymru	✓
Dyffryn Nantlle	✓✓✓✓✓

De Lloegr	✓✓
Henffordd (yr enw Saesneg glywch chi)	✓
Caerloyw (yr enw Saesneg glywch chi)	✓
Dyfnaint	✓
Bangor	✓

Chwaraewch y darn eto cyn gofyn i'r dysgwyr drafod yn eu parau/grwpiau pam mae Richard yn sôn am y lleoedd hyn wrth siarad am ddatblygiad y busnes. Ewch dros yr atebion gyda'r dosbarth cyfan:

Cymru – byddai gwinwydden Rondo yn tyfu'n wyllt unrhyw le yng Nghymru.

Dyffryn Nantlle a De Lloegr – mae Richard yn cymharu'r amodau ar gyfer tyfu gwinwydd ac yn dweud bod pethau gymaint haws yn ne Lloegr a bod datblygiad y gwinwydd yn Nyffryn Nantlle ryw chwe blynedd ar ei hol hi o gymharu â de Lloegr ar ôl deng mlynedd o dyfu. (gallwch drafod y trosiad gyda'r trôns a'r fest!).

Henffordd/Hereford a Chaerloyw/Gloucester – buodd Richard ar gyrsiau i ddysgu sut i wneud seidr yn y lleoedd hyn.

Dyfnaint – archebodd Richard goed seidr traddodiadol o Ddyfnaint.

Bangor – Yma mae Ian Sturrock, sy'n arbenigwr ar goed afalau ac wedi ymchwilio i goed cynhenid Cymreig.

Gofynnwch nesaf i'r dysgwyr drafod y tablau sy'n gofyn iddynt ddangos pa blanhigion sydd wedi ffynnu ym Mhant Du a pha fathau o win sydd wedi cael eu cynhyrchu ym Mhant Du mewn gwahanol flynyddoedd. Gofynnwch iddynt drafod hefyd pam mae rhai planhigion wedi ffynnu a rhai eraill wedi methu. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, ewch dros yr atebion:

	Ffynnu (✓)
Gwinwydden Rondo	✓
Gwinwydden Regent	X
Gwinwydden Bacchus	X
Coed afalau seidr traddodiadol	X
Coed afalau cynhenid Cymreig	✓

(Mae'r Rondo yn gallu tyfu'n dda unrhyw le yng Nghymru – ei chadw hi i lawr ydy'r her. Dydy gwinwydd Regent na Bacchus ddim yn addas i hinsawdd a thir Dyffryn Nantlle. mae'r coed afalau seidr traddodiadol o Ddyfnaint wedi dioddef cancr a'r coed cynhenid yn addas i'r ardal – fel y cyngorodd yr arbenigwr)

	2007	2010	2011	2012	bob blwyddyn ers 2012
Gwin Gwyn	X	X	X	X	✓
Gwin Coch	X	✓	✓	X	✓
Gwin Rhosliw	X	X	X	✓	✓
Gwin Pefriog	X	X	X	X	X

## 6. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy'n trafod busnesau bwyd a diod Cymreig. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau. Os oes unrhyw frandiau anghyfarwydd yn codi, gallwch ofyn i'r dysgwyr ddod â pheth o'r cynnyrch i'r dosbarth nesaf.



## Atodiad 1 – Trawsgrifiad glip fideo Eifion Griffiths

Wel, cwmni teulu yw e a mae'r teulu wedi bod 'ma ers **un naw un dou**. **Wedd** fy nhad-cu wedi prynu e mewn auction yn Abergwaun, wedd e wedi **dŵad** â'i teulu i fyw 'ma. **Wedd** e'n felin cyn hynny – Ann Evans, modryb Lloyd George, **wedd** hi'n berchen y felin. Dad-cu **wedd** yr un **wedd** wedi galw e'n Melin Tregwynt. Cyn hynny, **wedd** e'n Felin y Dyffryn. Ma 32 o bobol yn gweithio 'ma nawr, ma popeth yn cael ei wneud fan hyn a ma pob un or ardal. Ni'n gweithio 'da gwlân a **wedd** e ar un amser gwlân o'r ardal, yn amser fy nhad-cu. Ni'n prynu gwlân nawr o lot o lleoedd – fallai Australia, New Zealand i gael lambswool, ond ni yn gweithio nawr, ni'n **treial** gweithio 'da gwlân o'r wlad hon a ni'n **treial** gweithio hefyd 'da gwlân o Gymru. Ma hwnna'n rhywbeth **newi'** i fi ond fallai ni'n mynd yn full-circle nôl i'r fath o beth **wedd** fy nhad-cu yn wneud. **Heddi**, mae'n bwysig fod y brand yn Gymraeg. Mae'r stori yn bwysig iawn ac yn fwy bwysig fel ni'n mynd, chi'n gwbod, fel ni'n mynd i'r dyfodol achos ma pobol nawr, ma nhw'n **lico gwbod** ble ma rhwbeth wedi **dŵad**.

Ni'n gwerthu yn Ewrop, fallai mwy yn yr Unol Daleithiau a ni'n gwerthu lot yn Japan a ni'n **treial** gwerthu yn China. Ni'n gallu gweithio yn lot o **wahaniaeth** patrymau, ond ma'r patrymau traddodiadol yw'r rhai sy'n gwerthu mwyaf ar y foment. Ma patrwmaw 'da ni sy wedi bod 'da ni ers y 1950s a ma nhw wedi **dŵad** nôl yn boblogaidd achos ma pobol yn lico'r vintage a ma steil mid-century modern, a ma pobol yn enjoio'r fath beth fel'na a ma' pethe ni'n neud yn ffitio i mewn i'r steil.

## Atodiad 2 – Trawsgrifiad o sgwrs Beti George a Richard Huws

0'11" Croeso cynnes iawn aton ni. Dyn camera yw'r gwestai heddi – wedi gweithio ar ffilmiau a chyfresi fel *Hedd Wyn*, *C'mon Midffild*, *Talcen Caled*, *Y Dylluan Wen*, *Martha Jac a Sianco* ac *Alys*.

**Daeth mwy nag un tro ar fyd i'w ran** – cyfnod tymhestlog ei rieni yn ysgaru, symud o bentre hollol Gymraeg yn y Gogledd i ardal ddiwydiannol Seisnig yn y De. Wedi blynyddoedd lawer fel dyn camera, penderfynu mentro i brynu ffarm i gynhyrchu **gwin** a seidr a dŵr, ac **mae'r busnes yn ffynnu**. Richard Huws yw ei enw, croeso cynnes Richard.

0'46" Diolch yn fawr Beti.

0'47" 'Ych chi wedi mynd i'r busnes yma nawr o win, dyma pam, wrth gwrs, 'ych chi wedi cael eich gwahodd ar y rhaglen yma yndife. Felly **mae'r busnes yn ffynnu?**

0'57" Yndi tad. Naethon ni brynu'r ffarm yn 2003. Mae'r ffarm rhwng pentre **Tal-y-sarn** a pentre **Pen-y-groes**. Dw i'n dod o **Dal-y-sarn** yn wreiddiol, mae lola'r wraig yn dod o **Ben-y-groes**, so ma' hi yn y canol a deud y gwir. Ac oedd nhaid yn dod â fi i lawr pan o'n i'n blentyn bach i iard y ffarm i weld yr anifeiliaid a ma' 'na rwbath yn sbeshial am y ffarm – mae'n gwynebu'r de so ma' 'na fatha ryw hapusrwydd, cynhesrwydd am y ffarm a dw i'n meddwl, pan doeddau ni ddim yn gwbod be i neud ar ôl ei phrynu hi, fuon ni yn **Seland Newydd** ac oedd 'na ryw hadyn bach wedi ei blannu yn fan'na. O'n i'n hoffi'r syniad o fynd o amgylch **gwinllannoedd** a blasu gwin yna, ac oedd o'n ffordd o ddod â twristiaid i'r Dyffryn dw i'n meddwl, a dyna oedd y prif bwrpas pam wnaethon ni blannu gwin, dw i'n meddwl – a licio sialens hefyd!

1'44" Wrth gwrs, mae'r ffarm yn hen hefyd, **Pant Du** on d' yw e?

1'46" Yndi. Ma'r ffarm yn hen iawn a deud y gwir. O'n i ddim yn sylwi bod yr hen dŷ ffarm wedi cael ei adeiladu cyn pentre **Pen-y-groes**. Ma' gynna fi fap lle ma'n dangos y tŷ ffarm ond does 'na ddim **Pen-y-groes** - mae 'na **Dal-y-sarn** yna, ma' 'na **Llanllyfni** yna, **Clynnog**, ond does 'na ddim **Pen-y-groes**. Adeiladwyd yr hen dŷ ffarm yn 1603 a ma' 'na arfbais uwchben y lle tân, ma' 'na fatha grisiau spiral allan o gerrig ffantastig, mae crefftwaith ffantastig yna, ac yn ôl pob sôn, mi oedd o'n blasty yn ei ddydd felly.

2'20" Faint o waith oedd wrtho pan symudoch chi?

2'22" Oedd gynna fi fatha ryw broject, oedd o'n mynd i gymryd deg mlynedd i fi wireddu be o'n i isio neud – o'n i'n mynd i ddechrau ar y tŷ ffarm, mae o'n listed Gradd 2, a mi ges i Adam Walkner i neud cynlluniau a oeddau ni'n mynd i ddechrau ar y gwaith. A be nesh i, mi gesh i'r adran gynllunio i ddod o gwmpas y ffarm i weld be o'n i'n gallu neud efo'r ffarm. Mae'n well cael gwbod cyn bo chi'n dechra lle bo chi'n cael syniadau am saith mlynedd a ma' nhw'n deud na wedyn. A wedyn, ma' 'na fydái wrth ymyl y tŷ a ma' hwn yn feudy eitha hir. Oedd gynna fi syniad o neud fatha ryw un tŷ bach a tri lle i rentu i ymwelwyr 'lly a naethon nhw ddeu'tha fi, "os ti ishio, fedri di neud hwnna yn un tŷ", meddan nhw. "O waw", medda fi, so naethon ni neidio ar y cyfle i neud hwnna'n un tŷ a wedyn roid yr hen dŷ yn llythrennol ar y back-burner, felly. A wedyn, fel oedd y crop yn dod, oedd rhaid i ni gael ein lle wedyn i werthu ac i gynhyrchu'r seidr so naethon ni wario'n arian ar y siop a'r lle prosesu wedyn. So yn anffodus, ma'r hen dŷ yn dal i sefyll fel mae o – dach chi'n sôn am, dach chi'n gwbod, tua chwarter miliwn os nad mwy i neud yr hen dŷ i fyny yn anffodus, ond pwy a wŷyr?

3'26" A beth am y gwinwydd yma felly? Pa fath o **winwydd** fasech chi'n tyfu yn yr ardal yna?

3'34" Os fyswn i'n cael troi y cloc yn ôl, fyswn i 'di neud petha'n wahanol. Erbyn hyn, dw i'n gwbod 'na'r **winwydden Rondo** sydd yn tyfu orau – fysa honna'n tyfu'n wyllt yn rwla yng **Nghymru**, fatha mwyar duon; ei chadw hi i lawr ydy'r broblem fan'na a ma' i'n ffrwytho bob blwyddyn, so ma' hi'n safio ni a hefyd dan ni'n gallu cael gwin coch a gwin rholi allan o'r winwydden yna. Naethon ni ddechrau i ffwrdd efo saith gwahanol fath, dan ni 'di codi'r **Regent**, dan ni 'di codi'r **Bacchus** am bod

nhw ddim yn hoffi eu lle o gwbl yna, doeddau nhw ddim yn roid ffrwyth i ni, a wedyn dw i 'di ail-blannu Rondo yn eu llefydd nhw. So, dan ni'n dod yn ôl i drefn rŵan 'lly.

4'12" O'n nhw'n ffrwytho yn syth?

4'14" Na, dach chi'n gorfod disgwyl beth bynnag tair blynedd, ni'n **Dyffryn Nantlle**, pedair, cyn bo chi'n cael ffrwyth felly. Os bysan ni'n cystadlu efo **de Lloegr** a ni'n **Dyffryn Nantlle**, ar ôl tua deg mlynedd, fysan nhw ryw chwe mlynedd o'n blaenau ni. Dw i'n cymharu, os 'sach chi fel oedolyn yn sefyll yn ganol cae, ma' nhw mewn dillad cynnas ac yn iach ac yn tyfu yn **de Lloegr**, dan ni yn ein trôns a'n fest yn **Dyffryn Nantlle**, yn tyfu'n ara deg a ddim yn iach.

4'46" Fe ddechreuoch chi werthu'r gwin dair blynedd ar ôl eu plannu nhw?

4'48" Do, naethon ni blannu yn 2007 a'r botal gynta yn 2010, a dim ond botal goch oedd honna, yn 2011 dim ond botal goch, yn 2012 oedd hi'n rhy wlyb i neud gwin **coch** a naethon ni neud **rhosliw** adeg yna, ac o 2012 ymlaen, diolch i'r drefn, dan ni'n gallu cael gwin **gwyn**, rhosliw a coch erbyn hyn. Dan ni ddim wedi cyrraedd y sefyllfa lle ma' gynnan ni win **pefriog** oherwydd bod y grawnwin i gyd yn mynd i win **llonydd** 'lly.

5'19" Ie, a faint 'ych chi'n gynhyrchu erbyn hyn?

5'21" Ma' gynna fi ddewis efo rhosliw a coch, ma' gynna fi ddewis faint dw i isio neud yn win coch a faint dw i isio neud yn rhosliw, so dach chi'n gwbod, i fyny i ddwy fil, dwy fil a hanner, mae'n dibynnu ar y tymor. Oedd tymor llynedd ddim yn dda iawn – gwynt a glaw mis Gorffennaf ac Awst. 'Sach chi'n gofyn wrth bobol sydd yn cynhyrchu **mêl** a **gwatsiad ar ôl cychod gwenyn**, ma' llynedd wedi bod yn un o'r tymhorau anodda iddyn nhw. Ond o ran **'fala** a bod y gwanwyn wedi bod yn sych a dim glaw, oedd y 'fala yn ffantastig llynedd. A dyna pam nesh i blannu **coed 'fala** – rhag ofn bod yr holl broject y winllan yn mynd i fethu. O'n i'n gwbod oddwrth **Dyffryn Nantlle**, be sy'n tyfu yn **Dyffryn Nantlle**, a ma' 'fala yn gallu tyfu yna.

6'02" Ie, a mae 'na **berllan** go fawr gyda chi erbyn hyn, oes e?

6'05" Oes, ma' gynnon ni tua tair mil a dan ni'n mynd i blannu mwy o goed. Efo coed 'fala, ma' hwnna'n reit ddifyr hefyd – yn 2006, 2007, mi oedd diod seidr yn dechra mynd yn fwy poblogaidd, oherwydd hysbysebion Magners ar y teledu ac o'n i'n gweld hwnna'n trendio, a digwydd bod, oedd y trend yna'n helpu ni i sefydlu'r ffarm a fues i ar gyrsiau sut i neud seidar yn **Hereford** a **Gloucester** felly.

6'30" A chi'n neud y cynhyrchu ac yn prosesu'r seidr eich hunain?

6'32" Yndan. Dw i'n cofio'n iawn, o'n i ar ffilm Cwccw, a dyma fi'n penderfynu, reit, dw i'n mynd i ordro coed 'fala seidar heddiw. Ond do'n i'm yn sylweddoli, ma' rhaid i chi fod flwyddyn o flaen eich amsar, dach chi'n gwbod, i ordro be dach chi ishio achos ma' nhw'n gorfod grafftio nhw, ond do'n i'm yn gwbod hyn ar y cychwyn. So be nesh i, nesh i ordro dipyn o **goed traddodiadol seidar** o **Ddyfnaint** felly, a ma' hannar nhw wedi dod, ond ma' hannar nhw wedi cael cancr, so dw i'n gorfod codi rheina i fyny. A wedyn nesh i blannu, oherwydd bo fi di cyfarfod Ian Sturrock sy ym **Mangor**, mae o'n grafftio a mae o'n ymchwilio i **goed cynhenid Cymreig**, oedd o'n deu'tha fi, 'O Richard, sa'n well i chdi blannu coed cynhenid Cymreig. O'n i'n deud, 'dw i'n gwbod, ond dw i ishio seidar da hefyd, so ma' rhaid i fi fynd am y rhai traddodiadol seidar a mi wna i ychwanegu rhai Cymreig'. Ond erbyn heddiw, mi oedd o'n hollol iawn – does na'm un coed cynhenid, ma' gynna fi tua tri deg dau o wahanol fath o goed cynhenid Cymreig, a ma' nhw i gyd yn iach 'de, sy'n profi – plannwch petha lleol.